

Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

Medi 2025 i Medi 2026



CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND



MOL Education, Cymru



Breathe Creative, Cymru

Cynnwys

Cefndir	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
Sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.....	6
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	7
Safonau Llundio Polisiâu	10
Safonau Gweithredol	11
Safonau Cadw Cofnodion.....	16
Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau	17
Casgliad ac argymhellion	21
Atebolrwydd.....	23



Cefndir

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw ariannwr cymunedol mwyaf y Deyrnas Unedig, sy'n dosbarthu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i brosiectau sy'n helpu adeiladu cymunedau gwydn, cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy. Mae ein grantiau'n cefnogi gweithgareddau sy'n cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau pobl. Rydym wedi gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ers mis Ionawr 2019, ar ôl cael ein hadnabod yn flaenorol fel y Gronfa Loteri Fawr. Rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mai 2026, gwnaethom ddyfarnu 1,034 o grantiau yng Nghymru, sef cyfanswm o ychydig dros £45 miliwn, drwy'r Loteri Genedlaethol a ffrydiau ariannu eraill.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o ansawdd uchel i'r cyhoedd ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein cydweithwyr. Drwy ddyfarnu grantiau, rydym hefyd yn cefnogi prosiectau sy'n annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau.

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai pobl allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Sbardunodd y Mesur hefyd rôl Comisiynydd y Gymraeg, sy'n gweithio i hyrwyddo a rheoleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.

Daeth ein dyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i rym yn 2017. Mae hyn wedi ein galluogi i gryfhau a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Gronfa a gwella ansawdd ac argaeledd ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae rhestr lawn o'r Safonau sy'n berthnasol i ni yn ein [Hysbysiad Cydymffurfio](#), a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac yn tynnu sylw at ein llwyddiannau yn ystod 2025 i 2026. Mae hefyd yn nodi argymhellion a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod.



Home-Start Wrecsam, Cymru

Crynodeb Gweithredol

- Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg eleni.
- Gweithiodd tîm y Gymraeg gyda'r tîm Digidol yn ystod y broses o uwchraddio ein gwefan i sicrhau bod yr holl dudalennau perthnasol ar gael yn gyfartal yn Saesneg a Chymraeg. Fe wnaethom hefyd ddiweddarau ein tudalen we ar Safonau'r Gymraeg.
- Mae'r deunyddiau ar gyfer yr holl raglenni ariannu newydd ac wedi'u diweddarau sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Er enghraifft, eleni fe wnaethom lansio'r rhaglen Grantiau Bach Gwyrdd newydd ac adnewyddu ein rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru – Egin.
- Rydym wedi cynnal ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, gan gynnwys Facebook a LinkedIn. Rydym hefyd yn sicrhau bod cynnwys sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant Cymru yn ein cylchlythyr dwyieithog misol sy'n cael ei anfon at dros 1,800 o danysgrifwyr yng Nghymru.
- Rydym yn cynnig gwasanaethau dwyieithog mewn unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir gennym, gan alluogi ein rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y Gymraeg.
- Rydym yn sicrhau bod swyddi yng Nghymru neu ledled y Deyrnas Unedig yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ac rydym yn ystyried anghenion ieithyddol rolau.
- Rydym yn parhau i ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw bolisiau newydd neu bresennol. Rydym yn defnyddio ein hadnodd Asesu Effaith ar Degwch wrth ddatblygu unrhyw bolisi neu raglen newydd i ystyried goblygiadau Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ac unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ariannu (EDIF) hefyd wedi creu modiwl e-ddysgu 'Bodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb mewn



penderfyniadau ariannu', gan gynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth.

- Fe wnaethom ddiweddarau ein polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol eleni.
- Rydym yn cefnogi staff i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd ar eu gwaith. Fe wnaethom ddosbarthu arolwg i gydweithwyr i asesu eu sgiliau Cymraeg ac rydym wedi gwrandao ar adborth ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhellach yn y gweithle.
- Rydym yn parhau i gefnogi cydweithwyr i ddysgu a gwella eu Cymraeg drwy gynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg a chynnal sgysiau anffurfiol rhwng ein dysgwyr, Swyddog y Gymraeg a'n cyfieithydd mewnol.
- Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Eleni fe wnaethom gynhyrchu fideo ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer ein sesiynau Sefydlu Corfforaethol misol i staff newydd ledled y DU.
- Rydym yn parhau i gefnogi ein deiliaid grant i hyrwyddo'r Gymraeg drwy eu grantiau drwy waith allgymorth a chynnig hyfforddiant ar reoli prosiectau'n ddwyieithog.
- Rydym wedi hyrwyddo diwylliant Cymru'n fewnol ac yn allanol drwy ddathlu dyddiadau pwysig yng nghalendr Cymru, megis yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Rydym yn ariannu amrywiaeth o grwpiau ledled Cymru sy'n annog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Rydym wedi datblygu tudalen we sy'n crynhoi sut rydym yn bodloni gofynion [Safonau'r Gymraeg](#). Yn ogystal, rydym wedi creu tudalen sy'n esbonio [sut rydym yn goruchwyllo cydymffurfiaeth, hyrwyddo a hwyluso'r safonau](#), yn unol â Safonau 151, 157 a 163.

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn brofiad cadarnhaol a gwerthfawr i ni. Mae'n gwella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarparwn i gwsmeriaid a deiliaid grant, ac mae'n ein galluogi i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'n cydweithwyr.

Mae'r Safonau hefyd yn cefnogi cydweithrediad agosach rhwng ein tîm Cymraeg a thimau canolog ledled y DU, gan gynnwys Adnoddau Dynol (y Tîm Pobl), timau Ariannu amrywiol, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a Thystiolaeth ac Effaith. Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae ein Safonau'n dod o dan bedwar categori: cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweuthredu, cadw cofnodion.



Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rydym yn falch o ddarparu gwasanaethau dwyieithog i ymgeiswyr a deiliaid grant drwy gydol oes eu grant. Mae ein llinell ymholiadau'n cael ei staffio gan gydweithwyr dwyieithog, mae'r holl ganllawiau a deunyddiau ymgeisio ar gael yn y ddwy iaith, ac mae staff sy'n siarad Cymraeg yn asesu ac yn rheoli grantiau ar gyfer grwpiau sy'n dewis gwneud cais yn Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau 1 i 7, 8 i 22, 33 i 47 a 67 i 71.

Ar hyn o bryd, mae 57% o gydweithwyr yng Nghymru (21 allan o 37) yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, cynnydd o'i gymharu â'r llynedd o ran nifer a chanran. Mae dau aelod o Bwyllgor Cymru yn siarad Cymraeg, sy'n golygu bod holl gyfarfodydd Pwyllgor Cymru wedi cael eu cynnal yn ddwyieithog ers 2021 gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, yn unol â Safonau 24 i 32. Yn ogystal, mae pedwar cydweithiwr y tu allan i Gymru yn siarad Cymraeg neu'n dysgu, sy'n ein helpu i ymgorffori'r iaith ymhellach ar draws ein gwaith ledled y DU. Gyda chymaint o siaradwyr Cymraeg ar draws y Gronfa, mae darparu gwasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid yn broses naturiol i ni.

Mae'r rhan fwyaf o gydweithwyr yn gweithio ar sail hybrid, gan gyfuno gweithio gartref ag amser yn ein swyddfeydd. Ein prif gyswllt â'r cyhoedd felly yw trwy ein llinell ymholiadau ddwyieithog a thrwy ddigwyddiadau allgymorth, sydd hefyd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn parhau i gael presenoldeb cryf yn ein swyddfa yng Nghymru, gyda defnydd parhaus o adnoddau Cymraeg Gwaith Comisiynydd y Gymraeg.

Rydym hefyd yn defnyddio'r logos Cymraeg Gwaith ar ein lluniau Microsoft Teams a llofnodion e-bost i gefnogi cyfathrebu dwyieithog. Mae'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd ar Microsoft Teams yn ein galluogi i gynnal cyfarfodydd a chyfweliadau rhithiol yn

ddwyieithog. Er mwyn cefnogi cydweithwyr, rydym wedi creu canllawiau mewnol ar ddefnyddio'r swyddogaeth hon yn effeithiol, sydd ar gael ar ein Mewnwrwyd.

Mae ein gwefan ar gael yn y ddwy iaith, ac mae'r holl gynnwys newydd sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd Cymru neu ledled y DU, megis newyddion, tystiolaeth a gwybodaeth am grantiau, yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau 48 a 52. Eleni, yn ystod y broses o uwchraddio ein gwefan, gweithiodd y tîm Cymraeg yn agos â'r tîm Digidol i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn wahanol i'r Saesneg ar draws pob tudalen we berthnasol.

Mae ein holl ddeunyddiau brandio a hyrwyddo'n ddwyieithog, a gall deiliaid grant ddefnyddio ein tudalen [Hyrwyddo eich prosiect](#) i gael cyngor ar sut i rannu newyddion ariannu, cael mynediad at adnoddau brandio dwyieithog, a lawrlwytho ein logo dwyieithog.

Yn dilyn penodiadau ein Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu newydd a'n Harweinydd Cyfathrebu Strategol Cymraeg yng Nghymru, mae Swyddog y Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ystyried mewn trafodaethau sy'n ymwneud â pholisi a chyfathrebu yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn galluogi Swyddog y Gymraeg i gael gwybod am ddatblygiadau newydd ac i ddarparu safbwynt polisi'r Gymraeg pan fo angen.

Rydym yn parhau i ymrwymo i flaenoriaethu gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid a chydweithwyr.

Isod, rydym yn amlinellu ein cyflawniadau allweddol sy'n ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau eleni.

Lansio rhaglenni ariannu newydd

Ym mis Medi 2025, lansiwyd y rhaglen ariannu newydd [Meithrin Natur](#), gyda'r nod o wella iechyd a lles plant a'u gofawyr yng Nghymru drwy eu helpu i gysylltu â'r amgylchedd naturiol. Yn unol â safonau 33 i 45, mae'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni ar gael yn Gymraeg.

I ddysgu mwy am y rhaglen, ym mis Medi a Hydref 2025 cynhaliwyd gweithdai wyneb yn wyneb ledled Cymru yn ogystal â gweminarau. Yn unol â safonau 31 i 32, gwnaethom sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn ddwyieithog os oeddent wedi nodi hyn fel eu dewis.

Ym mis Gorffennaf 2026, lansiwyd Grantiau Bach Gwyrdd, rhaglen ariannu newydd i gymunedau ledled Cymru sydd am gymryd camau ymarferol dros eu hamgylchedd lleol. Fe wnaethom hefyd fwy na dyblu'r uchafswm grant sydd ar gael o dan raglen Camau Cynaliadwy Cymru - Egin. Yn ystod y newidiadau hyn, gweithiodd tîm y Gymraeg yn agos â thimau amrywiol ar draws y Gronfa i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau newydd ac wedi'u diweddarau ar gael yn Gymraeg.

Tudalen we newydd ar Safonau'r Gymraeg

Ym mis Mawrth 2026, lansiwyd ein tudalen we newydd ar gyfer [Safonau'r Gymraeg](#). Cydweithiodd Swyddog y Gymraeg â'r tîm Digidol i sicrhau hygyrchedd a darllenadwyedd. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Safonau bellach ar gael fel tudalennau gwe sy'n cysylltu o'r brif dudalen, yn hytrach na sawl dogfen PDF nad oeddent yn hygyrch. Bydd hyn yn gwella profiad y defnyddiwr, gan eu galluogi i gael mynediad at wybodaeth yn effeithlon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Tynnu sylw at ein cynnwys Cymraeg

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi pwysleisio cynnwys Cymraeg yn ein cylchlythyr misol, sy'n cael ei ddosbarthu i fwy na 1,800 o danysgrifwyr. Mae hyn yn cynnwys amlygu prosiectau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, nodi dyddiadau allweddol yng nghalendr Cymru, a nodi ein presenoldeb mewn digwyddiadau perthnasol.

Yn unol â Safonau 54 i 55, rydym yn sicrhau bod yr holl gynnwys o'r fath yn cael ei rannu'n ddwyieithog ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook a LinkedIn.



Ein rhaglen ariannu Meithrin Natur



**Kids need nature.
Natur i bob plentyn.**

With funding from our Meithrin Natur programme, you could help give it to them. Gydag arian gan raglen Meithrin Natur, gallwch chi helpu i roi byd natur iddynt.



Global Gardens, Cymru

Y Gymraeg mewn digwyddiadau allanol

Yn unol â Safonau 24 i 29, rydym yn parhau i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio unrhyw ddigwyddiad allanol. Mae gwahoddiadau a ffurflenni cofrestru yn hysbysu mynychwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, ac rydym yn gofyn a hoffent gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn seiliedig ar yr ymatebion, rydym yn rhoi'r trefniadau priodol ar waith. Pryd bynnag y mae o leiaf un mynychwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mae digwyddiadau'n cael eu hannerch yn ddwyieithog, ac rydym yn pwysleisio y gall cyfranogwyr gyfrannu yn Gymraeg drwy gydol y digwyddiad.

Fel rhan o'n rôl fel ariannwr, rydym yn mynychu cymorthfeydd ariannu a digwyddiadau trydydd sector ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys [Gofod3](#), sef digwyddiad sector gwirfoddol mwyaf Cymru, yn ogystal â digwyddiadau lleol llai. Rydym yn sicrhau bod Swyddogion Ariannu sy'n siarad Cymraeg ar gael i drafod ag unrhyw un sy'n dymuno trafod cyfleoedd ariannu'n Gymraeg. Rydym hefyd yn hyrwyddo ein presenoldeb yn y digwyddiadau hyn yn ddwyieithog ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, rydym yn hwyluso cyfathrebu dwyieithog yn ystod diwrnodau strategaeth Pwyllgor Cymru a digwyddiadau rhanddeiliaid.

Recriwtio a'r Gymraeg

Mae recriwtio staff dwyieithog yn rhan bwysig o sicrhau bod ein gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu. Yn unol â safon 132, rydym yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob rôl wag drwy gyfeirio at ein Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae hyn yn manylu ar faint o siaradwyr Cymraeg sydd eu hangen ym mhob tîm i fodloni Safonau'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd wrth i rolau newydd gael eu creu o fewn y sefydliad. Mae gennym hefyd restr wirio sy'n manylu ar y protocol mewn perthynas â'r Gymraeg wrth hysbysebu swyddi, cynnal cyfweiliadau a chyfathrebu â dechreuwyr newydd. Mae Swyddog y Gymraeg yn gweithio â'r Tîm Pobl i sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu dilyn bob tro.

Mae pob rôl yng Nghymru a'r DU gyfan yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un adeg. Rydym hefyd yn defnyddio gwefannau swyddi Cymraeg fel Golwg360, Lleol a Safle Swyddi ar gyfer rolau sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil 'hanfodol' neu 'ddymunol'. Ers mis Medi 2025, mae 32 o swyddi wedi cael eu hysbysebu'n ddwyieithog, naill ai yng Nghymru neu ledled y DU. Mae dwy o'r rolau hyn yn nodi'r Gymraeg fel sgil 'hanfodol' ac un rôl yn nodi'r Gymraeg fel 'dymunol'. Rydym wedi recriwtio dau siaradwr Cymraeg rhugl dros y flwyddyn ddiwethaf.

Safonau Llunio Polisïau

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ystod eang o bolisïau sy'n llywio sut rydym yn gweithredu ac yn darparu ein gwasanaethau. Pryd bynnag y byddwn yn adolygu polisi presennol neu'n datblygu un newydd, rydym yn ystyried ei effaith bosibl ar y Gymraeg ac yn nodi cyfleoedd i gefnogi neu gynyddu ei ddefnydd.

Ar gyfer pob polisi newydd, rydym yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac rydym yn chwilio am ffyrdd y gall ein polisïau wella cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn yr un modd, wrth gynnal ymgynghoriad neu ymchwil fel rhan o ddatblygiad polisi, rydym yn asesu'r effeithiau posibl ar y Gymraeg ac yn ceisio barn ar hyn.

Yn unol â Safon 90, mae gennym [bolisi pwrpasol ar gyfer ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau](#). Mae'r polisi hwn ar gael mewn canllaw i gydweithwyr, sy'n amlinellu ein disgwyliadau o ddeiliaid grant mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Yn 2024, creodd y tîm Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ariannu (EDIF) adnodd Asesiad Effaith ar Degwch i'w ddefnyddio wrth ddatblygu unrhyw bolisi neu raglen newydd. Mae'n cefnogi cydweithwyr i ystyried goblygiadau EDI, gan gynnwys y Gymraeg, yn ystod pob cam datblygu yn unol â dull sy'n seiliedig ar degwch a sut y gall effeithio ar grwpiau o bobl yn gadarnhaol ac yn negyddol - a rhoi camau ar waith i liniaru hyn.

Y flwyddyn ganlynol, creodd y tîm EDIF fesurydd Ystyriaeth Tegwch i gefnogi datblygiad prosiectau strategol, dylunio polisi a datblygu rhaglenni. Mae hyn yn sicrhau bod Tegwch yn cael ei ystyried yn gyson ar gyfer gwahanol feganweithiau ariannu.

Eleni, mae'r ddogfen 'Bodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb mewn penderfyniadau ariannu' wedi cael ei hailgynllunio fel modiwl e-ddysgu. Mae hyn ar gael ar ein system ddysgu fewnol yn ddwyieithog. Mae'n orfodol i ddechreuwy newydd ac yn cael ei ddefnyddio fel sesiwn gloywi i gydweithwyr ariannu. Mae'r modiwl yn cynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth.



Y Bartneriaeth Awyr Agored, Cymru

Safonau Gweithredol

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn sefydliad sy'n gweithredu ledled y DU, gyda'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau corfforaethol wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Pan ddaeth Safonau'r Gymraeg i rym am y tro cyntaf yn 2017, y Safonau Gweithredol oedd y rhai mwyaf heriol i ni eu bodloni.

Dros y naw mlynedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae'r Gymraeg bellach wedi'i hymgorffori'n gadarn ar draws y sefydliad, ac mae timau ledled y DU yn ystyried gofynion y Gymraeg yn rheolaidd cyn datblygu unrhyw ymgyrch, rhaglen neu ddeunyddiau newydd.

Yn dilyn lansiad modelau polisi defnydd mewnol Comisiynydd y Gymraeg, datblygodd Swyddog y Gymraeg bolisi mewnol newydd ym mis Mai 2026 i annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae'r polisi hwn yn bodloni'r gofyniad o dan Safon 94 i greu polisi Cymraeg mewnol ac yn adeiladu ar ein polisi blaenorol Ein Haddewid i Chi. Drwy'r polisi hwn, gyda chefnogaeth cynllunio effeithiol a gweithredu cadarnhaol, ein nod yw helpu cydweithwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r polisi'n tynnu sylw at y diwylliant dwyieithog cryf o fewn y Gronfa ac yn annog staff i gofleidio'r Gymraeg, gan ddefnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu a datblygu eu sgiliau yn y gweithle.

Mae'r polisi wedi'i strwythuro o amgylch 3 maes allweddol: arweinyddiaeth, meithrin hyder, a seilwaith gweinyddol. Mae cynllun gweithredu wedi'i atodi, sy'n nodi targedau, cyfrifoldebau a dangosyddion penodol. Mae'r polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Swyddog y Gymraeg cyn cael ei gymeradwyo gan gydweithwyr arweinyddiaeth ac yna ei gyhoeddi ar ein mewnwyd.

Rydym yn sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau i ddefnyddio'r



Gymraeg yn y gweithle wrth gychwyn eu swydd yn y Gronfa. Yn unol â'r polisi hwn a safon 95, mae eu contract swydd yn cael ei gynnig yn Gymraeg a gellir darparu unrhyw ohebiaeth, dogfennau a ffurflenni ar ôl hynny hefyd yn Gymraeg (safonau 96 i 100). Mae'r holl bolisiâu mewnol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, gan gydymffurfio â safonau 101 i 107. Cyfieithwyd 17 o bolisiâu mewnol eleni, gydag enghreifftiau'n cynnwys y Polisi Defnyddio Technoleg, Polisi Chwythu'r Chwiban a'r Polisi Secondiad. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Pobl sy'n creu neu'n diweddarau unrhyw bolisiâu i gyfieithu'r rhain yn brydlon i'r Gymraeg cyn eu rhannu â chydweithwyr, ac yn sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol eu bod ar gael yn Gymraeg.

Hwb Pobl

Rydym yn defnyddio system Adnoddau Dynol fewnol, Hwb Pobl, lle gall cydweithwyr gofnodi eu hamcanion perfformiad, gweld gwybodaeth am eu cyflogaeth, a rheoli gwyliau blynyddol ac absenoldebau eraill mewn un lle. Mae'r system gyfan ar gael yn Gymraeg, gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau 98 a 100.

Asesu sgiliau Cymraeg cydweithwyr

Yn unol â safon 123, rydym yn anfon holiadur at gydweithwyr bob blwyddyn i asesu faint o gydweithwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ac ar ba lefel. Mae'r cwestiynau'n gofyn pa mor hyderus maen nhw wrth siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu'n Gymraeg. Rydym hefyd yn gofyn am adborth ar unrhyw adnoddau yr hoffai cydweithwyr i ni eu darparu i'w cefnogi i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Dosbarthwyd yr holiadur ym mis Awst eleni ac fe'i cwblhawyd gan 30 o gydweithwyr. Cwblhaodd 10 o gydweithiwr yr holiadur trwy gyfrwng y Gymraeg, a chwblhaodd 20 o gydweithwyr yr holiadur yn Saesneg.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod nifer o'n gydweithwyr yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau gwrando a darllen Cymraeg gyda 15 yn cytuno â'r datganiad "Gallaf ddeall y mwyafrif o destunau Cymraeg cymhleth a syml" a 15 yn cytuno â'r datganiad "Gallaf ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau". Mae nifer y cydweithwyr sy'n teimlo'n hyderus wrth ysgrifennu a siarad ychydig yn is, gyda 12 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo'n ddigon hyderus i gynhyrchu adroddiad / adroddiad asesu / dogfen ymateb i ymgynghoriad yn Gymraeg" a 14 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n mynegi fy hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth".

Yn yr holiadur, cafodd cydweithwyr gyfle i roi adborth ar ba adnoddau neu wasanaethau yr hoffent eu derbyn i ddefnyddio eu Cymraeg yn fwy yn y gweithle. Cawsom sylwadau cadarnhaol am y sesiynau sgwrsio anffurfiol wythnosol a gynhaliwyd rhwng ein dysgwyr, Swyddog y Gymraeg a'n cyfieithydd. Hoffai'r rhai sy'n mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg barhau i fynychu a datblygu i'r cam nesaf.

Nododd dau gydweithiwr awydd i fynychu cyrsiau iaith dwys. Mynegodd cydweithiwr arall

yr hoffai weld agwedd fwy dwyieithog tuag at gyfarfodydd a diwrnodau tîm a mwy o sgiliau Cymraeg ymysg cydweithwyr rheoli. Nododd cydweithiwr arall ddiddordeb mewn mynychu cwrs Nant Gwrtheyrn gydag aelodau eraill o staff.

Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried wrth i ni barhau i wella ein cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Dysgwyr Cymraeg yn y Gronfa

Yn unol â safonau 125 i 127, rydym yn annog cydweithwyr i ddysgu neu wella eu Cymraeg yn y Gronfa gyda sawl cyfle gwahanol, boed hynny mewn cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn, dosbarthiadau wyneb yn wyneb wythnosol, cwrs ar-lein neu gwrs annibynnol. Rydym yn gweithio gyda [Dysgu Cymraeg](#) ac rydym yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i gydweithwyr ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith yn y sesiwn sefydlu i ddechreuwr newydd.

Mae wyth o gydweithwyr yn y Gronfa'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, ac mae dau ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Rydym wedi parhau â'r momentwm o helpu ein cydweithwyr i ddysgu Cymraeg gan fod ein cyfieithydd mewnol a Swyddog y Gymraeg wedi cynnal sgysiau anffurfiol drwy Teams i'n dysgwyr yn wythnosol. Mae pedwar o'n dysgwyr wedi cwblhau cwrs Mynediad Dysgu Cymraeg eleni a byddant yn dechrau'r cwrs Sylfaen ym mis Medi.

Mae adnoddau'n cael eu rhannu gyda'r grŵp o ddysgwyr fel erthyglau newyddion gyda geirfa i ddysgwyr, podlediadau, sioeau radio, rhaglenni teledu gydag isdeitlau a manylion grwpiau sgwrsio a digwyddiadau Cymraeg lleol ledled y DU.

Mae gennym hefyd sianel Teams bwrpasol ar gyfer ein dysgwyr, lle gallant rannu llwyddiannau, gofyn cwestiynau ac ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig. Mae sianel Teams ar


wahân ar gael i siaradwyr rhugl, sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle a thrafod unrhyw faterion ieithyddol, er enghraifft ymholiadau terminoleg. Mae taenlen derminoleg ganolog yn cael ei chynnal gan y cyfieithydd ac yn cael ei diweddarau yn ôl yr angen.

Hyfforddiant Mewnol

Mae'n ofynnol i bob cydweithiwr gwblhau'r dystysgrif hyfforddiant 'Hanfodion y Gweithle' pan fyddant yn ymuno â'r Gronfa, ac yna ei hail-wneud yn flynyddol wedi hynny. Mae cyfanswm o naw cwrs i'w cwblhau ar ein system dysgu mewnol, ac maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys: Cod Moseg; Diogelu Data (GDPR, FOI); Iechyd a Diogelwch (DSE a Diogelwch Tân); Diogelu; Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant; Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; Ymwybyddiaeth o Wrthdwyll a Llygredigaeth; Ein Fframwaith Statudol a Rheoleiddio; Diogelwch TG.

Yn dilyn ymgynghoriad mewnol ar ein proses ymgynefino, mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi addasu ein sesiwn Sefydlu Corfforaethol trwy greu cyfres o fideos ar gyfer dechreuwyr newydd. Mae un o'r rhain yn canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac mae'n orfodol i bob cydweithiwr newydd. Mae'r fideo rhyngweithiol hwn yn darparu cyd-destun hanesyddol am yr iaith Gymraeg, yn esbonio'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn amlinellu sefyllfa bresennol yr iaith heddiw.

Felly, rydym yn bodloni safon 124 wrth ddarparu'r holl hyfforddiant hanfodol yn Gymraeg a Saesneg. Cwblhaodd tri chydweithiwr y dystysgrif 'Hanfodion y Gweithle' drwy gyfrwng y Gymraeg eleni, sy'n gynydd ar y flwyddyn flaenorol. Byddwn yn anelu at gynyddu'r nifer hwn eto y flwyddyn nesaf drwy atgoffa cydweithwyr bod yr hyfforddiant hwn ar gael yn Gymraeg.



Rhan o'r cyflwyniad Hyfforddiant Corfforaethol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymreig a phwysigrwydd y safonau

Yn unol â Safon 128, mae ein modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan o'r hyfforddiant Hanfodion y Gweithle a rhaid i bob cydweithiwr ledled y DU ei gwblhau'n flynyddol. Mae'r modiwl yn ymdrin â hanes y Gymraeg, ei chyd-destun presennol, a'i harwyddocâd i ni fel sefydliad dwyieithog ledled y DU.

Yn unol â Safon 129, mae pob cydweithiwr ac aelod pwyllgor newydd yng nghyfarwyddiaeth Cymru'n derbyn sesiwn sefydlu gyda Swyddog y Gymraeg. Mae'r sesiwn yn amlinellu ein cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg ac yn tynnu sylw at y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Swyddog y Gymraeg hefyd yn parhau i nodi timau ar draws y Gronfa a fyddai'n elwa o hyfforddiant. Eleni, rydym yn bwriadu blaenoriaethu hyfforddiant ar gyfer y timau Dysgu a Datblygu, Digidol a Chyfathrebu.

Er mwyn hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith, rydym yn dathlu diwrnodau a digwyddiadau Cymreig yn fewnol, ac rydym yn cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu allanol trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr.

Diwrnod Shwmae/Su'mae (15 Hydref)

Ym mis Hydref 2025, fe wnaethom ddefnyddio Diwrnod Shwmae/Su'mae fel cyfle i gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg. Fe wnaethom ysgrifennu blog yn crynhoi'r adroddiad a rhannu dyfyniad gan Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.



“

Mae'n braf gweld fod y Gronfa yn ceisio ehangu yn gyson ar ei darpariaeth ddwyieithog, yn fewnol ac yn allanol, ac o ganlyniad yn gwella'r gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae gwaith y Gronfa Gymunedol yn cyrraedd pob cwr o'n cymdeithas ni yng Nghymru ac yn cael effaith sylweddol wrth hybu'r Gymraeg.

”

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Cymdeithas Gymunedol Pentredŵr yn Llangollen

Wythnos Defnyddia dy Gymraeg (24 Tachwedd i 5 Rhagfyr)

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i ddathlu wythnos Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg i dynnu sylw at ddeiliad grant sy'n defnyddio ein grantiau i hyrwyddo'r iaith yn eu cymuned. Mae Cymdeithas Gymunedol Pentredŵr a'r Cylch yn Llangollen yn grymuso eu cymuned i ddefnyddio a dysgu Cymraeg drwy gynnig cyrsiau Cymraeg achrededig, sesiynau Paned a Sgwrs misol a grŵp Cymraeg i blant ifanc.

Wythnos y Cynnig Cymraeg (11 – 15 Mai)

Ym mis Mai, roedd wythnos Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg yn gyfle i dynnu sylw at ein sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg. Rhannwyd y cyfle hwn ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr ac arweiniodd at ein nifer uchaf o fynychwyr yn ystod y flwyddyn.

Safonau Cadw Cofnodion

Er mwyn cydymffurfio â'n safonau cadw cofnodion (Safonau 141 i 148), rydym yn cadw cofnodion o'r canlynol:

- Cwynion a dderbyniwn mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'n bleser gennym nodi nad ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am y Gymraeg eleni.
- Sgiliau iaith cydweithwyr yn dilyn yr holiadur sgiliau Cymraeg ac unrhyw adborth ynglŷn ag adnoddau dysgu Cymraeg i'w darparu.
- Nifer y cydweithwyr sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn Gymraeg, megis iechyd a diogelwch.
- Aseidiadau a wnawn mewn perthynas â sgiliau Cymraeg a allai fod eu hangen ar gyfer swydd newydd neu wag a faint o rolau sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil 'hanfodol' neu 'ddymunol'.
- Nifer y deiliaid grant sy'n mynychu ein sesiynau 'Dwyieithrwydd ar Waith' mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.



Global Gardens, Cymru

Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau

Fel sefydliad sy'n dyfarnu grantiau, mae'n hanfodol bod ein deiliaid grant yn cyflawni eu prosiectau'n ddwyieithog, gan helpu cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

O'r cychwyn cyntaf, rydym yn egluro bod disgwyl i brosiectau yng Nghymru weithredu'n ddwyieithog fel amod o'u grant, gan sicrhau bod cymunedau'n gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr iaith o'u dewis. Gellir cynnwys costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno dwyieithog, megis cyfieithu deunyddiau hyrwyddo, o fewn cyllidebau prosiectau. Rydym yn annog ymgeiswyr i ymgynghori â'n [canllawiau ar ddwyieithrwydd](#), ac i ymgynghori â chymunedau Cymraeg wrth gynllunio eu gwaith. Mae cymorth manylach ar gael yn ein [canllaw i greu prosiect dwyieithog](#), ac mae Swyddog y Gymraeg ar gael i gynghori ymgeiswyr cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgeisio.

Yn unol â Safon 90, gweler isod camau ychwanegol yr ydym wedi'u cymryd eleni i sicrhau bod deiliaid grant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal ac yn ystyried sut y gall eu prosiectau gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith

Mewn cydweithrediad â thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg, rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant i'n deiliaid grant ar sut i reoli eu prosiectau'n ddwyieithog. Cynhaliwyd sesiynau ym mis Tachwedd 2025, Mawrth 2026 a Mehefin 2026, lle y gwnaethom amlinellu ein gofynion iaith ar gyfer prosiectau a ariennir. Rhoddodd tîm y Comisiynydd hefyd arweiniad ar ddylunio dwyieithog, yn ogystal â gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael o ran cyfieithu a phrawfddarlenn.

Y llynedd, dechreuon ni weithio gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol fel rhan o'r sesiynau hyn, gan alluogi deiliaid grant i rwydweithio a rhannu arfer da o ran darpariaeth ddwyieithog. Mae'r sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith nesaf wedi'u trefnu ar gyfer mis Hydref 2026.

Allgymorth ar gyfer y Mentrau Iaith

Ym mis Tachwedd 2025, mynychodd un o'n Rheolwyr Ariannu gynhadledd flynyddol Mentrau Iaith Cymru yn Aberystwyth. Yn ystod y digwyddiad, rhoddwyd cyflwyniad yn amlinellu'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael iddynt, a rhannodd un o ganghennau y Mentrau Iaith eu profiad o dderbyn cefnogaeth gennym ni. Ein nod oedd annog mwy o geisiadau gan Fentrau Iaith, a arweiniodd at ddau gais llwyddiannus ym mis Ionawr 2026.

Rydym yn nodi rhanddeiliaid a allai elwa o'r math hwn o allgymorth ac yn cynnal perthynas gref â sefydliadau Cymraeg, gan gynnwys Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, a'r Mentrau Iaith.

Gwyliau Cymreig

Rydym wedi parhau i gefnogi a mynychu gwyliau Cymreig sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant drwy ein grantiau a'n gwaith allgymorth:

Sioe Frenhinol Cymru – Llanelwedd

Ym mis Gorffennaf 2026, mynychodd ein Pennaeth Marchnata Sioe Frenhinol Cymru ar ran y Gronfa, yn dilyn gwahoddiad gan Merched y Wawr, a dderbyniodd grant Arian i Bawb gwerth £10,599. Daeth eu prosiect â chymunedau ar draws pedwar rhanbarth ar ddeg at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chreadigol, gan gynhyrchu gwaith celf gweledol ar y thema 'Positifrwydd Pinc'.

Uchafbwynt y prosiect oedd arddangosfa lachar yn y Sioe, yn arddangos gwaith celf a grëwyd drwy weithdai cymunedol ledled Cymru. Nod yr arddangosfa oedd codi ymwybyddiaeth o ganser a chynnig cymorth ymarferol ac emosiynol. Roedd hefyd yn cefnogi apêl Merched y Wawr ar gyfer Ymchwil Canser Cymru, gan annog pobl o bob oed

i drafod effaith canser mewn amgylchedd agored, cefnogol a phwerus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Eisteddfod yr Urdd - Ynys Môn

I ddathlu Eisteddfod yr Urdd eleni, cyhoeddodd Swyddog y Gymraeg erthygl ar wefan [Golwg](#) yn edrych ar bwysigrwydd ariannu cymunedau Cymraeg. Roedd y darn yn canolbwyntio ar ddeiliaid grant a oedd yn mynychu'r ŵyl gan gynnwys Mercher y Wawr Rhanbarth Môn, Medrwn Môn, Mudiad Meithrin a Menter Môn Cyf. Fe wnaethom dynnu sylw at y darn ar ein sianeli cymdeithasol a'n cylchlythyr..

Eisteddfod y Garreg Las

Eleni, cawsom gyfle i gydweithio gyda gweithredwr y Loteri, Allwyn, gan rannu pabell gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol drwy gydol yr wythnos yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma ein presenoldeb mwyaf yn yr Eisteddfod hyd yma, gyda sawl cydweithiwr yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd. Roedd yn gyfle gwych i gynnig cyngor ariannu i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.



Arddangosfa 'Positifrwydd Pinc' Merched y Wawr yn y Sioe Frenhinol, Gorffennaf 2026



Cyfarwyddwyr Cymru John Rose, ynghyd â Chadeirydd Bwrdd y DU Y Fonesig Julia Cleverdon a'r Rheolwr Ariannu Rachel Richards yn cyflwyno sic i Theatr Byd Bach yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llantwd.

Yn ystod yr wythnos, cawsom fwy na 160 o ymholiadau gan grwpiau cymunedol.

Fe wnaethom hefyd gymryd rhan mewn digwyddiad rhanddeiliaid i ddathlu 850 mlynedd o'r Eisteddfod Genedlaethol a £2.6 biliwn o fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol mewn diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru. Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd cyflwyno sic gan Heledd Fychan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon, i Theatr Byd Bach, yn cydnabod grant o £99,990 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol drwy ein rhaglen Pawb a'i Le.

Mynychodd Cadeirydd Bwrdd y DU, y Fonesig Julia Cleverdon, yr Eisteddfod ar ran y Gronfa am y tro cyntaf, gan ddangos ein hymrwymiad i ariannu yng Nghymru. Fe wnaethom gynhyrchu fideo gyda'r Fonesig Julia yn trafod ei hymwiliad, y gwnaethom ei rannu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Gallwch wyllo ein [fideo ar Facebook](#).

Prosiectau Cymraeg nodedig a ariannwyd eleni

Rydym yn cefnogi sefydliadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gweler isod rai enghreifftiau o brosiectau Cymraeg yr ydym wedi'u cefnogi eleni:

Derbyniodd Menter Iaith Sir Caerffili grant Arian i Bawb o £20,000 i gynnal cyfres o weithgareddau creadigol dros ddwy flynedd, gan roi cyfle i drigolion o bob oed fagu hyder, gwella lles a datblygu sgiliau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae eu prosiect celfyddydau cymunedol yn cynnwys gweithdai a digwyddiadau rheolaidd, gan gynnwys coginio, canu, dawns a chelf weledol a digidol, gan gryfhau cysylltiadau lleol a hyrwyddo defnydd naturiol o'r iaith.

Derbyniodd Menter Môn Cyf grant Pawb a'i Le o £250,000 i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion ledled Gwynedd ac Ynys Môn. Mae eu prosiect 'Ein Hanes' yn rhannu a dogfennu hanes a threftadaeth leol ar draws y cenedlaethau trwy ffilmiau byrion a chylchlythyrau. Nod y gweithgareddau yw lleihau unigrwydd a gwella lles, tra'n cefnogi'r Gymraeg.

Derbyniodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf grant Arian i Bawb o £20,000 i gynnal cyfres o weithgareddau creadigol a diddorol dros ddwy flynedd, gan roi cyfle i drigolion o bob oed ddysgu am eu diwylliant lleol, eu hanes a defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt. Bydd y prosiect yn meithrin balchder lleol ac yn atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Derbyniodd Menter Cwm Gwendraeth Elli grant Arian i Bawb o £15,582 i sefydlu academi dartiau Cymraeg wythnosol i bobl ifanc yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli. Gyda dartiau'n dod yn fwy poblogaidd ymhlith pobl ifanc, nododd yr academi fod angen gofod lleol i bobl ifanc gymryd rhan mewn camp wahanol tra'n cryfhau'r defnydd o'r iaith mewn lleoliad hwyllog a chymdeithasol.



St Peters Community Hall and Garden, Cymru



Same but Different, Cymru

Casgliad ac argymhellion

Mae'r adroddiad hwn wedi rhoi cyfle i adlewyrchu ar sefyllfa'r Gymraeg o fewn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ystod 2025 i 2026. Mae'n amlinellu ein perfformiad ar draws y safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion, ac yn tynnu sylw at sut rydym wedi hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru trwy ein gweithgareddau dyfarnu grantiau ac allgymorth. Mae'r Gronfa wedi parhau i gryfhau ei gwasanaethau dwyieithog a gwneud cynnydd ystyrlon, ac rydym yn falch o'r ddarpariaeth Gymraeg a gynigir gennym yn fewnol ac yn allanol.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, argymhellir ein bod yn blaenoriaethu'r canlynol:

Sicrhau bod ein Mewnwyd newydd yn gweithredu'n ddwyieithog

Wrth i ni ddiweddarau ein tudalennau Mewnwyd, mae tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r tîm Cyfathrebu Mewnol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cychwyn cyntaf a bod cydraddoldeb llawn rhwng y fersiynau Saesneg a Chymraeg. Byddwn yn treialu amserlen gyfieithu wythnosol ar gyfer pob erthygl newydd cyn lansio'r Fewnwyd yn ddiweddarach eleni. Bydd Swyddog y Gymraeg yn monitro'r broses gyfieithu a chydymffurfiaeth barhaus â Safonau 118, 120 a 122.

Cefnogi cydweithwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd

Yn dilyn adborth yn ein harolwg sgiliau iaith staff, byddwn yn archwilio cyfleoedd pellach i gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith bob dydd. Byddwn yn defnyddio ein polisi mewnol ar ddefnyddio'r Gymraeg i gynyddu cyfleoedd a magu hyder.

Parhau i annog cydweithwyr i ddysgu Gymraeg

Byddwn yn cynnal ein perthynas â Dysgu Cymraeg ac yn parhau i rannu'r cyrsiau sydd ar gael gyda chydweithwyr i gynnal momentwm wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg. Byddwn yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs Sylfaen ar hyn o bryd i symud ymlaen i'r cwrs Canolradd. Bydd

sesiynau sgwrsio Cymraeg anffurfiol rhwng Swyddog y Gymraeg, ein cyfieithydd mewnol a'r dysgwyr yn parhau, gan adeiladu ar adborth o'r arolwg sgiliau iaith staff. Byddwn hefyd yn defnyddio adnoddau gan Gomisiynydd y Gymraeg i gefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Parhau i hyrwyddo materion a diwylliant y Gymraeg

Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r Gronfa'n hyrwyddo diwylliant Cymru trwy ddyddiau a gwyliau Cymreig. Rydym yn bwriadu parhau i ddathlu'r achlysuron hyn ac adeiladu ar lwyddiant digwyddiadau a fynychwyd gennym eleni fel yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo prosiectau Cymraeg trwy ein grantiau, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr, ac yn nodi dyddiadau arwyddocaol yn y calendr Cymreig yn fewnol.

Annog mwy o gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i gwblhau 'Hanfodion y Gweithle' yn Gymraeg

Er bod cyfraddau cwblhau wedi cynyddu eleni, ein nod yw cynyddu nifer y cydweithwyr sy'n cwblhau hyfforddiant Hanfodion y Gweithle yn Gymraeg unwaith eto. Byddwn yn paratoi cyfathrebiadau sy'n atgoffa cydweithwyr bod yr holl fodiwlau hyfforddiant mewnol ar gael yn Gymraeg ac yn annog siaradwyr Cymraeg i'w cwblhau yn yr iaith.

Parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i dimau ledled y DU ar Safonau'r Gymraeg

Bydd Swyddog y Gymraeg yn parhau i adnabod timau ledled y DU a fyddai'n elwa o hyfforddiant ar y safonau, tra hefyd yn diweddarau timau rhanbarthol a chydweithwyr newydd yng Nghymru yn rheolaidd. Argymhellir ein bod yn blaenoriaethu'r timau canlynol y flwyddyn nesaf: Dysgu a Datblygu, Digidol, a Chyfathrebu.

Parhau i gefnogi ein prosiectau

Yn dilyn adborth cadarnhaol o'r sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith eleni, rydym yn bwriadu parhau i gynnal y sesiynau hyn dair gwaith y flwyddyn mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Er ein bod yn fodlon ar nifer y mynychwyr i'r sesiynau Saesneg, ein nod yw cynyddu cyfranogiad yn y sesiynau Cymraeg. Awgrymir y dylid ailgynllunio'r sesiynau i fod yn fwy rhyngweithiol, gan annog deiliaid grant i rannu arfer gorau a thrafod heriau wrth reoli prosiectau dwyieithog.



Atebolrwydd

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â Safonau'r Gymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, anfonwch e-bost at cymorthcymraeg@cronfagymunedolylg.org.uk.

Mae ein [gweithdrefn gwyno ar gael ar ein gwefan](#).



